
AMGUEDDFA CYMRU

# O'r Ddafad i'r Siop

## Creu Brethyn yn Amgueddfa Wlân Cymru






Dre-fach Felindre yw cartref Amgueddfa Wlân Cymru.

Mae'r amgueddfa yn felin wlân weithredol. Cyn iddi ddod yn amgueddfa, enw'r felin oedd Melinau Cambrian. Roedd gweithwyr yn creu crysau, siolau, blancedi a charthenni, ac yn eu gwerthu ledled Cymru ac i weddill y byd.

Nid gweithwyr Melinau Cambrian oedd yr unig rai oedd yn gwneud hyn. Roedd dros 250 o felinau gwlân yn y gorllewin yn arfer bod, gyda 24 yn Dre-fach Felindre a'r cyffiniau.



Mae'n cymryd llawer o waith
i droi gwlân yn frethyn.
Gadewch i ni edrych ar daith
y gwlân o'r ddafad i'r siop!

Darllenwch hwn fel dosbarth
cyfan neu ar eich pen eich
hunan!






Daw gwlân o ddefaid.

Mae defaid yn gallu bod yn flêr, felly yn aml maen nhw'n cael eu golchi cyn cael eu cneifio.

Yn yr hen ddyddiau, byddai pobl yn mynd i mewn i'w cwrwgl ac yn golchi'r defaid mewn afonydd cyfagos.



Dyma'r cwrwgl

A dyma'r ddafad fudr fydd yn cael ei golchi!



Mae'n rhaid cneifio defaid er mwyn cael y gwlân. Mae'r gwlân hefyd yn cael ei alw'n gnu.

Ers talwm, roedd defaid yn cael eu cneifio â llaw. Byddai ffermwyr yn defnyddio Gwellau, oedd yn edrych fel siswrn mawr.




Erbyn hyn, mae gwellau trydan yn cael eu defnyddio, ac mae'r broses yn debyg iawn i pan fydd rhywun yn eillio gyda pheiriant trydan.



Ar ôl i'r defaid gael eu cneifio, caiff y gwlân ei wahanu ac yna ei heislanu gyda chrib fetel.

Mae'r broses heislanu yn agor y gwlân.

Byddai Peiriant Heislan mewn melin wlân. Drwm mawr sy'n cylchdroi yw hwn gyda dannedd metel mawr sy'n rhwygo'r gwlân yn ddarnau.







Yna, byddai'r gwlân yn cael ei gribo. Byddai'r broses gribo yn tynnu'r holl glymau allan o'r gwlân ac yn ei sythu yn barod i'w nyddu.





Yn draddodiadol, byddai cribau llaw yn cael eu defnyddio i wneud hyn. Fodd bynnag, roedd melinau gwlân yn defnyddio peiriannau cribo enfawr a fyddai'n cribo'r gwlân yn barod i'w nyddu.

Yna, byddai'r gwlân sydd wedi'i gribo yn cael ei nyddu.

Yn y gorffennol, byddai olwynion nyddu yn cael eu defnyddio i wneud hyn. Dim ond un edau roedd modd ei nyddu ar y tro. Roedd hi'n broses araf.



Roedd melinau gwlân yn defnyddio peiriant o'r enw mul nyddu. Roedden nhw'n gallu creu hyd at 400 edafedd ar y tro. Roedd hi'n broses llawer cyflymach na defnyddio olwyn nyddu.




Byddech yna'n plethu'r edau yn frethyn.

Ers talwm, byddai pobl wedi defnyddio gwyddiau llaw.

Roedd gan felinau gwlân wyddiau mawr oedd yn cael eu pweru gan ager neu olwyn ddŵr.

Byddai gwŷdd yn plethu'r edafedd gyda'i gilydd i wneud darn o frethyn cryf.






Ar ôl ei wehyddu,
roedd y brethyn yn
cael ei olchi.

Yna, byddai'r brethyn yn cael ei sychu.




Am flynyddoedd, byddai'r brethyn yn cael ei osod ar Ffrâm Ddeintur i'w sychu yn yr awyr agored.



Pan fyddai'r brethyn yn
sych, byddai'n cael ei
anfon i bob cwr o
Gymru a thu hwnt.



Byddai'n cael ei gludo ar drên stêm a'i anfon i siopau dillad ledled Cymru i'w werthu i gwsmeriaid.



AMGUEDDFA CYMRU

# O'r Ddafad i'r Siop

Creu Brethyn yn Amgueddfa Wlân Cymru

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth.



Archwilio Amgueddfa Wlân Cymru




Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth.

Gallwch ddod i ymweld â ni neu fwynhau taith 360 ar-lein



AMGUEDDFA
CYMRU

I weld mwy o adnoddau dysgu, ewch i dudalennau Dysgu yr Amgueddfa drwy'r ddolen isod

**amgueddfa.cymru/dysgu**